
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwasanaethau sy'n addas i'r dyfodol – iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Dyma ddogfen Hawdd ei Deall
gan Lywodraeth Cymru



## Papur Gwyn

## Fersiwn Hawdd ei Darllen

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn Hawdd ei Deall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.




Efallai y byddwch angen help a chymorth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hynny'n meddwl Llywodraeth Cymru.

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG32220 Digital ISBN 978-1-4734-9933-1



I gael rhagor o gopïau o’r fersiwn Hawdd ei Deall yma, cysylltwch â’r Is-adran Ansawdd Gofal Iechyd yn Llywodraeth Cymru a byddwn yn hapus i’ch helpu.



Rhif ffôn: 03000 253090

E-bost: HQDMailbox@wales.gsi.gov.uk

# Cynnwys

## Beth sydd yn y llyfryn yma?


Pennod 1 – Gwybodaeth am y ddogfen yma 5

Pennod 2 – Y rhesymau dros newid 7

Pennod 3 – Y pethau rydyn ni'n ystyried eu newid 9

Pennod 4 – Sut i fynegi eich barn 20

Pennod 5 – Gwybodaeth amdanoch chi 22

# Pennod 1


## Gwybodaeth am y ddogfen yma

Dyma ddogfen am iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.



Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu rhoi gan feddygon, nyrsys, rheolwyr, gweithwyr gofal a llawer o bobl eraill.
Maen nhw'n helpu pobl i gadw'n iach ac yn annibynnol. Maen nhw'n gofalu am bobl pan maen nhw'n sâl.

Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu rhoi mewn meddygfeydd, ysbytai, clinigau, gartref a chartrefi gofal.




Rydyn ni am i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wneud gwaith da. Dylai pobl fod yn hapus â'r gofal maen nhw'n ei gael.

Dylai pobl hefyd gael mwy o gyfle i fynegi barn am y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio, ac am eu gofal eu hunain.

Rydyn ni eisoes wedi gofyn i bobl am beth y bydden nhw'n dymuno newid. Fe wnaethon ni hyn yn 2015 mewn dogfen o'r enw **Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd**.

Aethom ni ati i wrando ar bobl, ac ystyried sut y byddai modd inni wneud rhai newidiadau i wellau pethau.




Papur Gwyn yw'r ddogfen hon. Mae'n rhoi sylw i 2 beth:



**Ansawdd:** mae hyn yn golygu bod pobl yn cael gofal da iawn yn y ffordd y maen nhw am ei gael.

**Llywodraethiant:** mae hyn yn golygu gwneud yn siŵr bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu rhedeg gan y bobl gywir ac yn y ffordd gywir.

Er mwyn gwneud hyn, mae'n bosibl y bydd angen inni lunio rhai cyfreithiau newydd.



Rydyn ni am gael eich barn ar y newidiadau rydyn ni'n ystyried eu gwneud.

Does dim rhaid ichi ateb pob cwestiwn.
Mae modd i chi ateb ambell un yn unig.
Eich penderfyniad chi yw hynny.

# Pennod 2

## Y rhesymau dros newid



Mae llawer o bobl yng Nghymru angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'n drist bod cymaint o bobl yng Nghymru yn anhwylus. Rydyn ni am i bobl fod mor iach â phosibl, ac i fyw'n annibynnol.

Mae'n bwysig i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd er mwyn iddyn nhw allu darparu gofal da yn awr ac yn y dyfodol.



Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod pobl yn byw'n hirach nag erioed.

Os nad yw gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn dechrau gweithio'n wahanol yn awr, mae'n bosibl na fydd y gwasanaethau'n gallu ymdopi yn y dyfodol.

Rydyn ni hefyd am i bobl gael mwy o gyfle i fynegi barn am y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio, ac am eu gofal eu hunain.

Rydyn ni'n credu y bydd gwneud rhai cyfreithiau newydd yn helpu i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

# Pennod 3

## Y pethau rydyn ni'n ystyried eu newid

Rydyn ni'n ystyried gwneud newidiadau, ac yn eu trafod isod.

## Arweinwyr da

Mae'n bwysig i bob un ohonom ni fod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu rhedeg yn gywir.



Mae'n rhaid i'r grŵp o bobl sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hefyd wneud yn siŵr eu bod yn gwybod beth yw dymuniadau pobl.

Nid yw hyn bob amser yn digwydd ar hyn o bryd.

Yng Nghymru, sefydliadau o'r enw Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd. Rydyn ni'n credu y gallen nhw weithio'n well.



**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Mae'n bosibl y byddwn yn newid y gyfraith i'w gwneud yn haws i gael y grŵp gorau o bobl i wneud y penderfyniadau cywir ar sut y mae gwasanaethau iechyd yng Nghymru yn cael eu rhedeg.

**Beth yw eich barn chi?**

## Dweud y gwir

Rydyn ni am i weithwyr a sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru fod yn onest a dweud wrth bobl os yw rhywbeth yn mynd o'i le.

Mae angen i bobl wybod os oes rhywbeth wedi mynd o'i le gyda'u gofal fel bod modd iddyn nhw fod yn rhan o helpu i geisio ei wneud yn well.

Nid yw hyn bob amser yn digwydd ar hyn o bryd, ac rydyn ni am wella hyn.



**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Mae'n bosibl y byddwn yn llunio cyfraith newydd i wneud yn siŵr bod gweithwyr a sefydliadau bob amser yn dweud y gwir ac yn siarad gyda phobl.

Os nad yw gweithwyr a sefydliadau yn onest, bydd y gyfraith newydd yn golygu y gallen nhw fod mewn trwbwl.

**Beth yw eich barn chi?**

## Gofal o ansawdd da



Dylai pobl sy'n gweithio i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ddarparu gofal o ansawdd da iawn.

Mae hyn yn cynnwys meddygon, nyrsys a gweithwyr gofal.

Mae hefyd yn cynnwys y bobl sy'n rhedeg y gwasanaethau hyn, a'r bobl sy'n gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol.



Gan fod Cymru yn wlad fach, mae angen inni edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl.

Rydyn ni'n credu y gallai hyn i gyd weithio'n llawer gwell nag y mae ar hyn o bryd.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**



Mae'n bosibl y byddwn yn llunio cyfraith newydd i wneud yn siŵr bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a darparu gofal o ansawdd da.

Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i sefydliadau ddod i benderfyniadau a gweithio gyda'i gilydd ar yr hyn sydd orau i bawb, ac nid pobl yn eu hardaloedd nhw yn unig.

**Beth yw eich barn chi?**

## Safonau uchel ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Dylai pob un ohonom ddisgwyl cael gofal da.



Mae Llywodraeth Cymru yn dweud wrth wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru beth yw gofal da. Mae hyn yn cael ei alw'n "gosod safonau".

Ar hyn o bryd, mae'r safonau ar gyfer meddygon teulu, ysbytai'r gwasanaeth iechyd, ysbytai preifat a lleoedd fel cartrefi gofal, neu ar gyfer gofal sy'n cael ei ddarparu yn y cartref, i gyd yn wahanol.

Rydyn ni'n credu y dylai yr un safonau fod ar waith yn y lleoedd hyn i gyd, er mwyn i bobl gael gofal o'r un ansawdd lle bynnag y byddan nhw ei angen.

Bydd hyn yn haws i bawb ddeall.



**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Mae'n bosibl y byddwn yn llunio cyfraith newydd i wneud yn siŵr bod yr un safonau ar waith lle bynnag y byddwch yn cael gofal.

**Beth yw eich barn chi?**

## Gwneud cwyn




Os yw pobl yn anhapus, dylai fod yn hawdd iddyn nhw ddweud hynny, hyd yn oed os ydyn nhw'n anhapus am fwy nag un gwasanaeth.

Dydyn ni ddim am i bobl orfod cwyno i wahanol sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydyn ni am i sefydliadau weithio gyda'i gilydd i ymchwilio i gwynion. Ni fydd angen hyn ar gyfer pob cwyn.

Rydyn ni'n credu y bydd hyn yn well i bobl ac yn haws iddyn nhw ddeall.



**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Mae'n bosibl y byddwn yn llunio cyfraith newydd i wneud yn siŵr bod sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio i ymchwilio i gŵyn.

Dylai hyn wneud pethau'n haws i'r un sy'n cwyno.

**Beth yw eich barn chi?**

## Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu mynegi barn

Mae'n bwysig i bobl gael mynegi barn am eu gofal eu hunain ac ar y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynnal.



Local Health Boards and Local Authorities already have to ask people what they think about health and social care. We think they could do this better.

Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol ofyn i bobl am eu barn am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n credu y gallan nhw wneud hyn yn well.

Ar hyn o bryd, mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn dweud wrth Fyrddau Iechyd Lleol beth yw barn pobl leol am wasanaethau iechyd. Mae pobl sy'n gweithio yn y Cynghorau hyn yn mynd i gyfarfodydd ac yn mynd o amgylch lleoedd fel ysbytai a meddygfeydd.

CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL
BWRDD CYMRU | WALES BOARD

Nid yw'r Cynghorau hyn yn edrych ar ofal cymdeithasol.

Yn lle'r Cynghorau hyn, rydyn ni am gael ffordd wahanol o wneud yn siŵr bod pobl yn gallu mynegi barn am yr holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ein gobaith yw cael un sefydliad i wneud hyn yng Nghymru. Rôl y sefydliad hwn fydd gwirio a yw gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn rhoi cyfle i bobl fynegi barn. Mae hyn yn debyg iawn i'r ffordd y mae'r Alban yn gweithio.

Bydd y sefydliad newydd hwn hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda'r sefydliadau sy'n gwirio gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a'u helpu i wella.



Rydyn ni'n credu y bydd hon yn ffordd well o wneud yn siŵr bod pobl yn cael mynegi eu barn gan ei fod yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.



**Beth fyddwn ni’n ei wneud?**

Mae’n bosibl y byddwn yn llunio cyfraith newydd i greu sefydliad yng Nghymru sy’n gwneud yn siŵr bod pobl yn cael mynegi barn am iechyd a gofal cymdeithasol.

**Beth yw eich barn chi?**

## Newidiadau i’r ffordd y mae gwasanaethau iechyd yn cael eu trefnu

Mae angen newid y ffordd y mae rhai gwasanaethau iechyd yn cael eu trefnu a lle maen nhw’n cael eu darparu.

Ynghyd â rhoi cyfle i bobl fynegi barn am hyn, mae angen i ni hefyd benderfynu beth i’w wneud os nad yw pobl yn gallu cytuno.

Mae’n bosibl y bydd angen i arbenigwyr edrych ar rai newidiadau.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydyn ni’n credu y bydd angen i Lywodraeth Cymru benderfynu ar newidiadau anodd.

Bydd y Gweinidog yn edrych ar yr holl wybodaeth ac yn penderfynu beth i’w wneud.

Bydd y Gweinidog yn cael cyngor gan arbenigwyr a'r sefydliad newydd sy'n gwneud yn siŵr bod pobl yn cael mynegi barn am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**



Mae'n bosibl y byddwn yn llunio cyfraith newydd i'w gwneud yn glir beth fydd yn digwydd os nad yw pobl yn gallu cytuno ar newid i wasanaethau iechyd.

Bydd hyn yn golygu y bydd y Gweinidogion yn gallu penderfynu, ond bydd rhaid iddyn nhw gael cyngor yn gyntaf.

**Beth yw eich barn chi?**

## Gwirio'r cynnydd

Rydyn ni angen i bobl wirio os yw pethau'n dod ymlaen yn dda yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

agic hiw | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Healthcare Inspectorate Wales

Y bobl sy'n gwirio gwasanaethau iechyd yng Nghymru yw Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, neu AGIC.

Y bobl sy'n gwirio gwasanaethau gofal cymdeithasol yw Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, neu AGGCC.

Rydyn ni'n credu y gallai AGIC ac AGGCC weithio gyda'i gilydd llawer mwy. Rydyn ni'n credu y bydd hyn yn well i bobl ac yn haws iddyn nhw ddeall.

Rydyn ni hefyd yn credu y gallai'r gyfraith fod yn fwy clir am beth mae AGIC yn gallu gwirio.



**Beth fyddwn ni'n ei wneud?**

Mae'n bosibl y byddwn yn llunio cyfraith newydd yn nodi beth mae AGIC yn gallu gwirio. Byddwn yn rhoi pob cyfraith newydd mewn un lle fel ei bod yn haws i bobl gael gafael arnyn nhw a'u darllen.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn llunio cyfraith newydd i wneud yn siŵr bod AGIC ac AGGCC yn gweithio gyda'i gilydd yn well.

Syniad arall yw creu sefydliad newydd i uno AGIC ac AGGCC.

**Beth yw eich barn chi?**

Mae'r rhain yn bethau y mae'n bosibl y byddwn am eu gwneud. Rydyn ni'n gobeithio eich bod yn meddwl eu bod yn syniadau da. Os ydych yn credu ein bod wedi anghofio unrhyw beth, rhowch wybod inni!

# Pennod 4




## Sut i fynegi eich barn

Gallwch fynegi eich barn am y pethau mae'n bosibl y byddwn am eu gwneud.

Dywedwch wrthym erbyn 28 Mehefin 2017.

Gallwch ysgrifennu eich barn ar y dudalen nesaf.


Gallwch ei anfon:



**Drwy'r post:**
Matthew Tester
Is-adran Ansawdd Gofal Iechyd
Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd  CF10 3NQ



**Drwy e-bost:**
HQDMailbox@wales.gsi.gov.uk




**Ysgrifennwch eich barn yma. Mae modd i chi ychwanegu rhagor o dudalennau os bydd angen.**

# Pennod 5


## Gwybodaeth amdanoch chi



Eich enw



Eich cyfeiriad e-bost neu rif ffôn



Eich cyfeiriad



Ydych chi'n mynegi barn fel rhan o grŵp?

Os ydych, ysgrifennwch enw'r grŵp yma

Byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad am yr hyn y bydd pawb yn dweud wrthym ni. Bydd yr wybodaeth hon ar gael ar y rhyngrwyd.

Os nad ydych chi am i ni ddefnyddio eich enw neu ran o'ch cyfeiriad yn ein hadroddiad, ticiwch y blwch. ☐

Os ydych chi am i ni gadw'r hyn rydych chi'n ei ddweud yn gyfrinachol, ticiwch y bwlch. ☐